



## Cofnodion/Minutes

### Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant Community Council

Dyddiad/Date: 11/09/2023

am 7:00 yh/ at 7:00pm

Gynhaliwyd / Held.... Yn y Ganolfan Abergynolwyn

#### **Presennol:**

Y Cadeirydd/Chair Emrys Thompson, Gwynedd Roberts, Elwyn Evans, Robert Jones, Eleri Puw, Steve Lewis, Dylan Jarman, Miriam Webb. Bethan Lawton (Cyngor Gwynedd) Huw T Jones (Clerc)

Croesawyd Huw yn swyddogol fel Clerc newydd y Cyngor.

1. **Ymddiheuriadau** Dim

2. **Datgan diddordeb** : Dim

3. **Derbyn Cofnodion**; Cafwyd y cofnodion yn gywir, Elwyn Evans yn cynnig gyda Eleri Puw yn eilio. Pawb o'r farn. Arwyddwyd y cofnodion.

4. **Rheilffordd Talyllyn**, Dywedodd Beth nad oedd unrhyw ddiweddariad. Byddai yn cysylltu gyda Liz Porrett.

5. **Cae chwarae**, Roedd dau fil am dorri gwair i law, sef cae chwarae, hefyd mynent y Llan a'r Fedw a gwrych yn y Fedw yn Gorffennaf , am gyfanswm o £1300. Hefyd Cae Chwarae a'r fynwent ym mis Awst am gyfanswm o £680. Cytunwyd l'w talu.

6. **Mynwentydd** . Penderfynwyd y dylid ail-edrych ar y prisiau, a danfon allan gwahoddiad am dendrau o'r newydd ar gyfer holl waith torri gwair y Cyngor yn 2024. Roedd cais am gladdu llwch ar y 3ydd o Hydref, sef y diweddar John Charles Smith o Walsall. Cadarnhawyd y gost, sef graddfeydd Cyngor Gwynedd £236 x 2 a chost £50 agor bedd. Roedd angen trafod eto cost prynu plotiau etc yn y cyswllt hyn – ar agenda tro nesaf.

7. **Llwybrau** , Cadarnhwyd fod y gwaith ar llwybr 37 Tan y Coed wedi ei gwblhau. Trafodwyd cyfrifoldebau am y llwybrau yn yr ardal, a beth oedd yn gyfrifoldeb y Cyngor Cymuned, lle gellir hawlio £300 o gostau. Roedd Robert Jones yn delio gyda llwybr ger Meriafel.

8. **Toiledau**, Nodwyd fod anfoneb Cyngor Gwynedd am £2000 I law. Pawb yn hapus I'w dalu.

9. **Adroddiad Cadeirydd**. -adroddwyd fod yna waith yn mynd ymlaen I gael Defibrillator yn Llanfihangel y Pennant, a'r posibilrwydd o'I roi yn y Ciosc yno.

10. **Adroddiad Clerc**, Nodwyd y byddai'r gwaith yn mynd ymlaen gan Huw Jones o'r 1/09/23. Cadarnhawyd y telerau, sef cyflog £2000 gross a £500 o gostau am y flwyddyn 2023-24. Roedd y gwaith gyda PAYE a HMRC yn cael ei wneud gan Evans & Owen yn y Cyngorau eraill oedd ganddo, a penderfynwyd gofyn I'r Cwmni yma hefyd I wneud un Llanfihangel y Pennant, a gorffen y gwaith gyda Major & Evans. Hefyd roedd Huw wedi siarad gyda Eileen, a byddai hyn danfon popeth ymalen iddo.

11. **Adroddiad Cyllideb**. Cytunwyd i dalu £200 am gostau Archwilio Cymru 2019/2020. Hefyd costau Emrys Thompson am waith Clercio £ 23.64 (stampiau/proof postage/ink cartridge) Cytunwyd i dalu costau Rospa am £94.20, sef archwilio maes chwarae. Dangoswyd yr adroddiad I'r Cyngorwyr. Nodwyd nad oedd yna ddim I'w bryderu amdano, ond bod ychydig o rwd I'w weld. Roedd angen paentio cyn Pasg flwyddyn nesaf. Penderfynwyd gofyn am 3 quote ar gyfer hyn. Penderfynwyd peidio cyfrannu i gais gan Cerebral Palsy Cymru.

12. **Adroddodd y Cyngorydd Beth Lawton am ei gwaith fel Cyngorydd Gwynedd**. Roedd wedi mynychu cyfarod o'r Bwrdd Iechyd, ac byddai yr Uned Man anafiadau ar agor o 9-4 am 5 diwrnod yr wythnos. Roedd yna edrych I mewn I'r angen am ward yn Ysbyty Tywyn, a gwahanol modelau gweithio. Roedd hi hefyd wedi cael cyfafrod efo Mabon ap Gwynfor ynglyn a problemau deintyddiaeth, a oedd yn broblem enfawr. Materion eraill oedd cwynion am gyflwyno 20 mya o'r 17eg o Fedi, problemau tai gwag ac Erthygl 4 yng nghyswllt hawliau cynllunio.

13. **Ciosgs**. Nid oedd unrhyw faterion yn codi gyda Minffordd a Groesffordd Caerberllan . Roedd Ciosc Tyncornel yn cael ei edrych ar ei ol gan y gwesty.

14. **Un Llais Cymru** – adroddodd Elwyn Evans am y diweddaraf, a chyfarfod rhithiol a gafwyd 1af o Fedi. Roedd y swyddogion wedi cyfarfod Jeremy Miles, Gweinidog Addysg a'r Iaith Gymraeg ac Eluned Morgan Gweinidog Iechyd. Roedd U LL C mewn lle da I roi pwysau arnynt, ac roedd yn cael statrws uchel. Roedd hysbyseb am swyddog polisi ychwanegol.

15. **Safle Treftadaeth** - adroddwyd y diweddaraf, a darllenwyd e-bost Hannah Joyce o Gyngor Gwynedd dyddiedig 28 Gorffennaf. Penderfynwyd peidio mynd ymlaen a'r awgrym o roi plac ychwanegol ar y Ganolfan.

16. **Problemau Parcio/ Coeden yn difrodi wal yr afon**.

Nodwyd fod y ceir bellach wedi symud.

Byddai trafodaeth bellach ar fater y goeden yn y cyfarfod nesaf.

17. **Cau B4445 yn mis Medi a Hydref**.

Nodwyd y manylion sydd yn y llythyrau gan Gyngor Gwynedd. Byddent yn cau y ffordd ar yr 18fed o Fedi a 6ed Hydref. Nodwyd fodd bynnag nad oedd Staer Dywyll yn cael ei chau ac roedd rhaid ystyried hyn. Addawodd Beth Lawton ymdrin a hyn.

## 18. Materion eraill

- Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cwblhau y daflen cadarnhad o gostau a hawliau Cynghorwyr I Lywodraeth Cymru.
- Trafodwyd fod rhaid trafod y wefan yn y cyfarfod nesaf. Gwelwyd y byddai yn llawer mwy buddiol cael darparwr gwefan sydd yn gwbl annibynnol I'r Cyngor Cymuned. Gofynnwyd I'r Clerc gael cadarnhad ar y gost erbyn y cyfarfod nesaf. Yn y cyfamser, byddai rhaid ceisio cynnwys cofnodion cyfarfodydd ar wefan y Ganolfan.
- Roedd bin baw cwn yn gorlifo ar ffordd Hendrewallog. Addawodd y Clerc gysylltu gyda Alan Hughes, Warden Cwn Cyngor Gwynedd mor fuan a phosib.
- Gwnaed ymholiad am gontract gwaith I'r Clerc, a byddai y Clerc yn adrodd yn y cyfarfod nesaf.

19. Cyfarfod nesaf 9/10/2023.

### Cartref Mari Jones

Roedd swm o £35.16 yn y blwch rhoddion.

Nodwyd fod e-bost I law gan Nerys Siddall yn nodi fod Cymdeithas y Beibl yn ail-greu paneli gwybodaeth , ac angen hawl I fynd ar y safle yn Llanfihangel y Pennant. Gwelwyd nad oedd anhawster, ond dylid cysylltu gyda Robert Jones.

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben 9.10.y.h.

Present

The Chairman/Chair Emrys Thompson, Gwynedd

Roberts, Elwyn Evans, Robert Jones, Eleri Puw, Steve Lewis, Dylan Jarman, Miriam

Webb , Bethan Lawton (Gwynedd Council) Huw T Jones (Clerk)

Huw was officially welcomed as the Council's new Clerk.

1. No Apologies

2. Declaration of interest : None

3. Acceptance of minutes; The minutes were found correct, Elwyn Evans proposed with Eleri Puw seconding. All of the opinion. The minutes were signed.

4. Talyllyn Railway, Beth said there was no update. She would contact Liz Porrett.

5. Playground, There were two invoices for cutting grass, which is a playground, also the cemetery in

Llan and the Fedw, and cutting of a hedge in Fedw in July, for a total of £1300. Also Cae Chwarae and

the cemetery in August for a total of £680. Agreed to pay.

6. Cemeteries. It was decided that the prices should be looked at again, and an invitation sent out for new tenders for all the Council's grass cutting work in 2024.

There was a request for burial of ashes on the 3rd of October, namely the late John Charles Smith of Walsall. The cost was confirmed, namely the Gwynedd Council rates £236 x 2 and the £50 cost of opening a grave. It was necessary to discuss again the cost of buying plots etc in this regard - on the agenda next time.

7. Footpaths; It was confirmed that the work on footpath 37 Tan y Coed has been completed.

Responsibilities for the paths in the area were discussed, and what was the responsibility of the Community Council, where £300 of costs can be claimed. Robert Jones was dealing with a route near Meriafel.

8. Toilets, It was noted that Gwynedd Council's invoice for £2000 has been received. All happy To pay.

9. Chairman's report. - it was reported that there is work going on to get a Defibrillator in Llanfihangel y Pennant, and the possibility of putting it in the Kiosk there.

10. Clerk's report, It was noted that the work would be carried on by Huw Jones as from 1/09/23.

The terms were confirmed, namely a salary of £2000 gross and £500 costs for the year 2023-24. The work with PAYE and HMRC was being done by Evans & Owen in the other Councils he had, and it was decided to ask this Company also to do one for Llanfihangel y Pennant, and finish the work with Major & Evans.

Also Huw had spoken to Eileen, and she would deliver everything to him in future.

11. Budget Report. It was agreed to pay £200 for the costs of the Wales Audit 2019/2020.

Also Emrys Thompson's costs for Clerk work £23.64 (stamps/proof postage/ink cartridge)

It was agreed to cover Rospa's costs of £94.20, namely the inspection of the playground. The report

was shown to the Councillors. It was noted that there was nothing to worry about, but that there was a little rust to be seen. Painting was needed before Easter next year. It was decided to ask for 3 quotes for this.

It was decided not to contribute to an application by Cerebral Palsy Wales.

12. Councillor Beth Lawton reported on her work as a Gwynedd Councillor. She had attended a meeting with the Health Board, and the Minor Injuries Unit would be open from 9-4 for 5 days a week. They were also looking into the need for the ward at Ysbyty Tywyn, and different working models. She had also met with Mabon ap Gwynfor regarding dentistry problems, which was a huge problem. Other issues were complaints about the introduction of 20 mph from the 17th of September, problems with empty houses, and Article 4 in relation to planning rights.

13. Kiosks. There were no issues arising with Minffordd and Caerberllan Crossroads. The Tyncornel Kiosk was looked after by the hotel.

14. Un Llais Cymru/One Voice Wales - Elwyn Evans reported on the latest, and a virtual meeting that took place on the 1st of September. The officers had met Jeremy Miles, Minister for Education and the Welsh Language and Eluned Morgan, Minister for Health. One voice Wales was in a good place to put pressure on them, and it had a high status. There was an advertisement for an additional policy officer.

15. Heritage Site - the latest was reported, and Hannah Joyce's email from Gwynedd Council dated 28 July was read. It was decided not to go ahead with the suggestion of putting an additional plaque on the wall of the Ganolfan.

16. Parking Problems/ Tree damaging the river wall.

It was noted that the cars had now been moved.

There would be further discussion on the issue of the tree at the next meeting.

17. Closure of B4445 in September and October.

The details contained in the letters from Gwynedd Council were noted. They would close the road on the 18th of September and 6th of October. It was noted however that Staer Dywyll was not being closed and this had to be considered. Beth Lawton promised to deal with this.

#### 18. Other matters

- The Chairman said that he had completed the information with regard to costs/claims of Councilors to the Welsh Government.
- It was discussed that the website must be considered at the next meeting. It was seen that it would be much more beneficial to have a website provider that is completely independent to the Community Council. The Clerk was asked to have confirmation of the cost by the next meeting. In the meantime, it would be necessary to try to include meeting minutes on the Centre's website.
- A dog litter bin was overflowing on Hendrewallog road. The Clerk promised to contact Alan Hughes, Gwynedd Council's Dog Warden as soon as possible.
- It was asked whether there was a work contract for the Clerk. The Clerk would report at the next meeting.

#### 19. Next meeting 9/10/2023

##### Mary Jones' home

There was a sum of £35.16 in the donation box.

It was noted that an email had been received from Nerys Siddall stating that the Bible Society was re-creating the information panels, and needed permission to go on the site in Llanfihangel y Pennant.

It was noted that there was no difficulty, but Robert Jones should be contacted.

The meeting was concluded at 9.10 p.m.

.

Cyfarfod Nesaf:

9/10/2023

@7:00yh

Next meeting:

Llofnod y Cadeirydd/ Chair Signature

Dyddiad/Date

[clerc.cyngor.llanfihangel.council@gmail.com](mailto:clerc.cyngor.llanfihangel.council@gmail.com)